

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



1. Dechrau

1.1 Y camau cyntaf - o syniadau i weithredu

Beth yw grŵp gwirfoddol?

Mae grŵp gwirfoddol yn gasgliad o unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i ymgymryd â gweithgareddau arbennig er lles y gymuned - beth bynnag neu phwy bynnag yw'r gymuned honno. Mae yna amcangyfrif o 30,000 grwpiau gwirfoddol yng Nghymru, o grwpiau hunan gymorth arbenigol bychain a redir gan ddefnyddwyr hyd at elusennau cenedlaethol. Gallant weithredu ar lefel genedlaethol, sirol, rhanbarthol neu gymunedol, pob un yn tueddu defnyddio'i maes diddordeb arbennig.

Mae grwpiau gwirfoddol yn bodoli oherwydd bod pobl yn gweld angen ac yn cydweithio i ddod â newid, neu ddarparu gwasanaeth, er lles y gymuned.

Dechrau mudiad newydd

Bydd y daflen wybodaeth yma yn eich helpu os ydych yn dechrau mudiad newydd. Bydd yn awgrymu rhai pwyntiau i feddwl amdanynt ar y cychwyn cyntaf ac yn dweud wrthyfch sut i ddarganfod mwy.

Sut fydd e?

Gall dechrau mudiad newydd fod yn bleserus, a gall rhoi llawer o foddhad. Mae'n ffordd i wneud mwy am rywbeth sy'n bwysig i chi na allech wneud yn unigol. Mae'n cymryd egni, brwdfrydedd a gwaith caled, ac weithiau llawer iawn o amynedd, i sicrhau llwyddiant mudiad newydd. Diau y bydd yna broblemau a phethau ddim yn dilyn y drefn. Dyna reswm arall dros gydweithio'n agos gyda grŵp o bobl sydd â'r un meddylfryd. Gallwch weithio ar y problemau gyda'ch gilydd, a hybu a chefnogi'ch gilydd.

Y camau cyntaf

Y ffordd orau o ddechrau yw casglu at ei gilydd nifer fach o bobl sy'n rhannu eich diddordeb a siarad am beth fedrwch chi wneud. Hyd yn oed os nad ydynt eisiau bod yn rhan hir dymor, efallai y byddant yn fodlon cyfrannu syniadau a phrofiad yn y camau cyntaf.

Sut allwch chi ddod o hyd i bobl sydd â diddordeb, os nad ydych yn eu hadnabod? Gallwch geisio gofyn i weithwyr cymunedol, athrawon ysgol neu unrhyw un arall sy'n

cwrdd â llawer o bobl yn y gymuned. Gofynnwch iddynt a ydynt yn adnabod rhywun a fyddai'n dangos diddordeb yn eich syniadau.

Gallwch hefyd arddangos hysbysebion mewn swyddfeydd post, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, mannau addoli neu unrhyw le arall sydd â llawer o bobl e.e. siopau, meddygfeydd, a pheidiwch anghofio gwefannau lleol. Dylai'r hysbysebion esbonio beth ydych eisiau gwneud, a gofyn i unrhyw un sydd â diddordeb i gysylltu â chi. Gellwch gael eich siomi o'r ochr orau!

Os ydych eisiau cyrraedd cynulleidfa ehangach, ysgrifennwch at eich papurau lleol. Amlinellwch eich prosiect neu'ch bwriadau, a rhowch enw cyswllt, cyfeiriad a rhif ffôn. Efallai y byddant yn printio rhywbeth yn rhad ac am ddim. Gall eich Cyngor Gwirfoddol Sirol roi cysylltiadau defnyddiol i chi ac o bosib peth cyhoeddusrwydd.

Cyfarfod cyntaf

Fel arfer mae'n syniad da i gynnal cyfarfod agored i lansio'r mudiad newydd. Cysylltwch â'r papurau a'r gorsafoedd radio lleol. Rhowch wahoddiad i gynghorwyr lleol, eich Aelod Cynulliad a'ch Aelod Seneddol.

Os ydych eisiau i'r grŵp ddenu pobl o bob adran o'r gymuned, rhowch wahoddiad i gynrychiolwyr gwahanol grwpiau i gyfrannu syniadau yn y cyfarfod cyntaf. Gwell cael cynrychiolaeth o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal â'r bobl sy'n rhan ohono yn barod, meddyliwch am wahodd:

- unrhyw un arall sy'n dangos diddordeb i helpu
- mudiadau eraill sy'n gweithio mewn maes tebyg
- mudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau a chymunedau penodol
- staff allweddol yr awdurdod lleol
- cynrychiolydd o'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol

Gall y cyfarfod fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol ond dylai fod strwythur ac agenda. Naill ffordd neu'r llall, bydd yn gyfle i chi:

- esbonio beth sydd gennych mewn golwg
- gwneud neu gryfhau cysylltiadau defnyddiol
- chwilio am gyhoeddusrwydd
- denu gwirfoddolwyr
- darganfod sut mae eraill yn gweld eich syniadau

Mae'n werth nodi'r pwyntiau a wneir gan bobl neu ysgrifennu cofnodion ffurfiol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Dylai'r bobl hynny sydd eisiau bod yn rhan ffurfiol a thrwyadl yn y mudiad gwrdd i ffurfio pwyllgor rheoli a ffurfio cyfansoddiad. (Gweler taflen wybodaeth 1.5 - Dewis strwythurau cyfreithiol).

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA

Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944

post@medrwnmon.org

Ffacs: 01248 750149

www.medrwnmon.org



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 11/04/2011